-----------------------------------------------------------------------------------------------

# PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD 17.06.11

-----------------------------------------------------------------------------------------------

**Yn bresennol:**

Y Cynghorwyr: Stephen Churchman, Trevor Edwards, O.P. Huws, Owain Williams, W.J. Chorlton, Lewis Davies, Kenneth P. Hughes, ac Eric Roberts

**Hefyd yn bresennol**: Aled Davies (Pennaeth Adran Rheoleiddio, Cyngor Gwynedd), Jim Woodcock (Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Sir Ynys Môn), Gareth Jones (Rheolwr Gwasanaeth Amgylcheddol, Cyngor Gwynedd), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr, Cyngor Gwynedd), Nia Haf Davies (Rheolwr Polisi Cynllunio, Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd  ac Aled Lewis (Uwch Swyddog Cynllunio, Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd)

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd W. Gareth Roberts yn Gadeirydd y Pwyllgor am y cyfnod 2011 - 12.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd John Chorlton yn Is-gadeirydd y Pwyllgor am y cyfnod  2011 - 12.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorwyr Gareth Roberts, Arwel Pierce, John Wyn Williams,H. Eifion Jones a Chomisynydd Alex Aldridge.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. MATERION BRYS**

Ni gyflwynwyd unrhyw fater brys.

**6. COFNODION**

Cytunwyd fod cofnodion o’r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, a gynhaliwyd ar 25 Mawrth, 2011 yn gywir.

**7. CYTUNDEB CYFLAWNI**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Polisi Cynllunio a nodai’r camau sydd wedi eu hymgymeryd o ran y Cytundeb Cyflawni hyd yn hyn.  Pwysleiswyd fod y Cytundeb Cyflawni yn ddogfen statudol a bod rhaid cael penderfyniad y ddau Gyngor ar ei gynnwys cyn cael cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.  Nodwyd fod 25 sylw wedi ei dderbyn yn ystod y cyfnod ymgynghori.  Cynigwyd mân newidiadau i’r Cytundeb Cyflawni mewn ymateb i’r sylwadau a dderbyniwyd.  Pwysleisiodd Pennaeth yr Adran Rheoleiddio fod y 9 mis nesaf yn allweddol yn y broses o lubio’r CDLl ar y Cyd.

Codwyd y materion canlynol gan yr aelodau:

i) Gofynnodd aelod os oedd y cynnydd sydd wedi ei wneud ar y Cynllun yn unol â'r amserlen. Cadarnhawyd fod y gwaith sydd wedi ei wneud ar y Cynllun hyd yn hyn yn cyfateb â'r amserlen sydd yn y Cytundeb Cyflawni.

ii) Nododd aelod nad oedd sôn am yr iaith Gymraeg yn y ffigurau strategol yn Atodiad 2, nac ychwaith yr angen am asesiad ieithyddol. Cytunodd y Rheolwr Polisi Cynllunio i edrych ar hyn .

iii) Gofynnodd aelod sut allai NCT20 gael ei ddefnyddio er mwyn cryfhau'r iaith Gymraeg mewn ardaloedd o fewn Ardal y Cynllun. Nododd Pennaeth yr Adran Rheoleiddio fod barn yn amrywio o ran pa mor addas yw'r NCT. Nodwyd fod y cyfnod ymgynghori ar y NCT diwygiedig wedi dod i ben ac fod sylwadau Cyngor Gwynedd ar y ddogfen wedi cael eu craffu gan Fwrdd y Cyngor. Nodwyd fod yr NCT yn rhoi eglurhad o sut dylai'r CDLl ystyried effeithiau ieithyddol ac fe fydd y canllaw yn cael ystyriaeth yn y broses o lunio'r Cynllun. Ychwanegodd y Rheolwr Polisi Cynllunio fod fframwaith yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn rhoi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg yn yr ardal. Fe fydd y CDLl hefyd yn destun Asesiad Ardrawiad Ieithyddol.

iv) Gofynnodd aelod os yw'r Uned wedi agor cofrestr o safleoedd posibl ar gyfer y CDLl. Nodwyd nad yw'r uned wedi cyrraedd y cam hwn o'r broses eto. Bwriedir rhoi rhybudd yn y papurau lleol i hysbysu'r cyhoedd fod cyfle iddynt gyflwyno safleoedd mewn amser. Fe fydd yr uned yn ail-gysylltu gyda phobl sydd eisioes wedi cyflwyno safleoedd ar gyfer y CDLl blaenorol ym Mon. Nodwyd hefyd y bydd rhaid ail-asesu safleoedd presennol fel rhan o'r broses o asesu addasrwydd safleoedd.

v) Nododd aelod fod angen edrcyh ar ddiffinio etifeddiaeth ardaloedd ôl-chwareli fel Dyffyn Nantlle, a bod angen cyfeirio at henebion chwarelyddol. Nodwyd ei bod yn bwysig fod etifeddiaeth yn cael ystyriaeth.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni'n ddarostyngedig i'r sylwadau am yr iaith Gymraeg a diwylliant**.

**8. ASESIAD CYNALIADWY CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD YNYS MON A GWYNEDD (CDLL AR Y CYD)**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Polisi Cynllunio ar yr angen i ymgymeryd ag Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) ac Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) o'r CDLl. Amlygwyd pwysigrwydd sicrhau fod y dystiolaeth yn gadarn wrth ymgymeryd â'r broses AAS/AC. Nodwyd fod camau penodol yn y broses a bod angen cychwyn yr asesiad mor fuan â phosibl.

Codwyd y materion canlynol gan yr aelodau:

i) Nododd un aelod fod pryderon ynglŷn ag effaith melinau gwynt a peilons ar y tirwedd. Pwysleisiodd fod angen llunio polisi er mwyn diogelu'r tirwedd yn erbyn ardrawiad niweidiol datblygiadau o'r fath. Nodwyd hefyd ei bod yn bwysig cael cyngor arbenigwyr wrth lunio polisiau ar y pwnc. Nododd aelod arall, tra ei bod yn bwysig diogelu'r effaith ar y tirwedd, ei bod yn bwysig hybu datblygiadau ynni adenwyddol yn y Cynllun. Nododd y Rheolwr Polisi Cynllunio bydd ynni adnewyddol ac effaith datblygiadau fel melinau gwynt ar y tirwedd yn derbyn sylw yn y CDLl. Nodwyd fod yr uned eisioes wedi cychwyn gweithio ar ganllaw cynllunio atodol er mwyn rhoi arweiniad ar bolisiau presennol am y pwnc.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad**.

Ar ddiwedd y cyfarfod nododd y Rheolwr Polisi Cynllunio dyddiadau'r Pwyllgorau nesaf: 9fed Medi 2011, 7fed Hydref 2011, 11eg Tachwedd 2011, 2ail Rhagfyr, 2011, 20fed Ionawr 2012, 3ydd Chwefror 2012 a'r 2ail Mawrth 2012.